



The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

3/18 Eagle Wing
Temple Quay House
2 The Square
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaethau 0303 444 5000
Cwsmeriaid:
e-bost: GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk

I bob parti â buddiant ac eraill
Trwy e-bost

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010072

Dyddiad: 9 Chwefror 2016

Annwyl Syr/Madam

Deddf Cynllunio 2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010

Cais gan Snowdonia Pumped Hydro Limited ar gyfer Gorchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Cynllun Storfa Bwmp Glyn Rhonwy

Hysbysiad o Gyfarfod Rhagarweiniol ar 8 Mawrth 2016, amserlen archwilio ddrafft a materion eraill

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn fy mhenodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol i weithredu fel yr Awdurdod Archwilio ar gyfer y cais hwn am Orchymyn Caniatâd Datblygu.

Mae'r llythyr hwn yn wahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol i drafod y weithdrefn archwilio. **Cymherwch amser i ddarllen y llythyr hwn a phob un o'i atodiadau am eu bod yn cynnwys hysbysiadau ynghylch gwrandawiadau, penderfyniadau gweithdrefnol a gwybodaeth bwysig arall.**

Hoffwn ddiolch i'r rhai ohonoch a gyflwynodd sylwadau perthnasol. Mae'r sylwadau hyn wedi fy nghynorthwyo wrth baratoi fy nghynigion ynglŷn â sut i archwilio'r cais hwn.

Eich statws chi yn yr archwiliad

Anfonwyd y llythyr hwn atoch (neu'r corff yr ydych yn ei gynrychioli) am eich bod yn perthyn un o'r categorïau yn a88(3) Deddf Cynllunio 2008 (PA2008).

Os ydych wedi gwneud 'syllw perthnasol', os oes gennych fuddiant cyfreithiol yn y tir yr effeithir arno gan y cynnig, neu os ydych yn awdurdod lleol perthnasol, mae gennych statws ffurfiol o dan y PA2008 fel 'parti â buddiant' yn y broses archwilio.

Ni fydd partion statudol ac ymgylgoreion eraill nad ydynt wedi gwneud sylw perthnasol yn barti â buddiant fel mater o drefn. Fodd bynnag yn dilyn y Cyfarfod Rhagarweiniol, byddant yn cael cyfle pellach i hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio eu bod yn dymuno cael eu trin fel parti â buddiant.

Fel parti â buddiant, byddwch yn derbyn hysbysiadau gan yr Arolygiaeth Gynllunio ynglŷn â'r archwiliad trwy gydol y broses, a gallwch wneud cyflwyniadau ysgrifenedig a llafar ynghylch y cynnig.

Os nad ydych chi'n siŵr a ydych yn barti â buddiant, cysylltwch â'r tîm achosion gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn. Mae gwybodaeth am statws ffurfiol partion â buddiant, ac am sut gallwch chi gymryd rhan yn y broses, wedi'i hamlinellu yn Nodyn Cyngor 8 yr Arolygiaeth Gynllunio ar ein gwefan:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/legislation-and-advice/advice-notes/>.

Dyfarnu costau

Tynnaf eich sylw hefyd at y posibilrwydd o ddyfarnu costau yn erbyn partion â buddiant sy'n ymddwyn yn afresymol. Dylech fod yn ymwybodol o'r canllaw costau perthnasol sy'n ymwneud â Phrosiectau Seilwaith Cenedlaethol. Mae "Dyfarnu costau; archwiliadau ceisiadau am orchymyn caniatâd datblygu" ar gael ar ein gwefan:

<http://infrastructure.planningportal.gov.uk/legislation-and-advice/guidance/>.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r holl bartion wrth archwilio'r cais hwn.

Yr eiddoch yn gywir

Stuart Cowperthwaite

Stuart Cowperthwaite
Awdurdod Archwilio

Atodiadau

- Atodiad A** Manylion y Cyfarfod Rhagarweiniol
- Atodiad B** Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol
- Atodiad C** Penderfyniadau gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio
- Atodiad Ch** Amserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r cais
- Atodiad D** Hysbysiad o wrandawiadau cyntaf
- Atodiad Dd** Agenda ar gyfer y gwrandawriad mater penodol yn ymwneud â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu
- Atodiad E** Argaeledd sylwadau perthnasol a dogfennau'r cais
- Atodiad F** Asesiad cychwynnol o'r prif faterion

Gellir rhoi cyngor ar wneud cais am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau ynglŷn â chais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfwerth â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a'ch cyngor proffesiynol eich hun fel y bo'r angen.

Bydd cofnod o'r cyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ynghyd ag enw'r unigolyn neu'r sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Bydd preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol arall yn cael ei ddiogelu yn unol â'n Siarter Wybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.

Manylion y Cyfarfod Rhagarweiniol

Dyddiad y cyfarfod:	Dydd Mawrth 8 Mawrth 2016
Seddau ar gael o:	9.00 yb
Cyfarfod yn dechrau:	9.30 yb
Lleoliad:	Mynydd Gwefru Electric Mountain, Llanberis, Gwynedd, LL55 4UR
Mynediad a pharcio:	Mae parcio am dâl ar gael yn Lakeside, A4086, Gwynedd, Llanberis, LL55 4TA

<http://en.parkopedia.co.uk/parking/attraction/electric-mountain/>

Nodyn ynglŷn â'r Lleoliad: *Mae'r Canolfan Ymwelwyr y Mynydd trydan wedi'i ddewis fel y lleoliad ar gyfer y cyfarfod rhagarweiniol (a digwyddiadau eraill arholiad) fel yn bodloni'r holl ofynion rhaglennu yr Arolygiaeth Gynllunio. First Hydro Company, y generadur trydan sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu y blanhigion storio pwmp yn Ninorwig sy'n berchen ar y ganolfan ymwelwyr. Mae First Hydro Company yn rhan o linell busnes GDF Suez ynni rhyngwladol, sy'n gyfrifol am weithgareddau ynni GDF Suez mewn 30 o wledydd ar draws pum rhanbarth ledled y byd. Yr ymgeisydd ar gyfer y cynllun Glyn Rhonwy yw Snowdonia Pumped Hydro Limited, ac maent yn gyfrifol am gyflwyno'r cynllun Glyn Rhonwy ac yn hollol annibynnol o GDF Suez a First Hydro Company .*

Os bydd tywydd gwael neu amgylchiadau eithriadol eraill sy'n golygu na fydd modd cynnal y cyfarfod hwn, mae dyddiad arall wedi'i gadw, fel y nodir isod. Pe na bai'r cyfarfod yn mynd rhagddo, bydd diweddariad ac amserlen ddrafft wedi'i diweddarau yn cael eu rhoi ar ein gwefan, yma:

<http://infrastructure.planningportal.gov.uk/projects/wales/glyn-rhonwy-pumped-storage/>

Dyddiad arall:	Dydd Mawrth 15 Mawrth 2016
Seddau ar gael o:	9.00 yb
Cyfarfod yn dechrau:	9.30 yb
Lleoliad:	Mynydd Gwefru Electric Mountain, Llanberis, Gwynedd, LL55 4UR
Mynediad a pharcio:	Mae parcio am dâl ar gael yn Lakeside, A4086, Gwynedd, Llanberis, LL55 4TA

Os hoffech wneud cyfraniadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol dylech ein hysbysu o'ch dymuniad i wneud hyn gan y bydd cyfieithydd ar gael. Hefyd, mae croeso i chi wneud sylwadau ysgrifenedig yn y Gymraeg. Os oes angen, bydd cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael drwy glustffonau.

Diben y Cyfarfod Rhagarweiniol yw galluogi rhoi barnau i'r Awdurdod Archwilio ynglŷn â'r modd y mae'r cais i'w archwilio. Mae'n bwysig deall y **bydd y cyfarfod hwn yn ymdrin â gweithdrefn yn unig, ac nid â rhinweddau'r cais.** Bydd rhinweddau'r cais yn cael eu hystyried wedi i'r archwiliad ddechrau ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol gau.

Mae rhagor o wybodaeth yn cael ei rhoi yn Nodyn Cyngor 8.4, sydd ar gael ar ein gwefan yn:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/uploads/2013/04/Advice-note-8-4v3.pdf>

I gynorthwyo â chynnal cyfarfod teg, effeithlon ac effeithiol ac i sicrhau y gall pob barn berthnasol gael ei chlywed, anogwn yn gryf i grwpiau o unigolion sydd â barnau tebyg ynghylch y weithdrefn ddewis un cynrychiolydd i siarad ar ran y grŵp.

Mae'r agenda ar gyfer y cyfarfod yn **Atodiad B**. Sefydlwyd hwn yn dilyn yr asesiad cychwynnol o'r prif faterion sy'n codi ynglŷn â'r cais, sydd wedi'u nodi yn **Atodiad F**. O ganlyniad i'r asesiad hwn, bydd yr Awdurdod Archwilio yn dymuno clywed yn y cyfarfod gan yr ymgeisydd, partion â buddiant, partion statudol ac awdurdodau lleol lle maent yn ystyried y gall fod angen newidiadau i'r amserlen archwilio ddrafft a nodir yn **Atodiad Ch**.

Mynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Os ydych yn dymuno mynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol, anfonwch llythyr neu neges e-bost at yr Arolygiaeth Gynllunio neu ffoniwch yr Arolygiaeth, gan ddefnyddio'r cyfeiriad a'r manylion cyswllt a nodwyd ar flaen y llythyr hwn, gan nodi'r ohebiaeth at sylw Richard Price, Rheolwr Achos. Mae angen i ni dderbyn eich cadarnhad erbyn **23 Chwefror 2016**. Gweler isod am fanylion gweinyddol ar gyfer y cyfarfod hwn.

Bydd o gymorth o ran rheoli'r cyfarfod hefyd pe gallwch ddweud wrthym a ydych yn dymuno siarad yn y cyfarfod ac ar ba eitemau agenda, gan restru'r pwyntiau y dymunwch eu gwneud. Nodwch **nad** yw'n ofynnol i chi fynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol er mwyn cyfranogi yn yr archwiliad. Os ydych chi'n barti â buddiant byddwch yn gallu gwneud sylwadau ysgrifenedig o hyd a chyfranogi mewn unrhyw wrandawiadau sy'n cael eu trefnu. Pe na baech yn dymuno bod yn barti â buddiant mwyach ac nad ydych am fod yn rhan o'r broses archwilio, gallwch ein hysbysu am hyn yn ysgrifenedig.

Ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol

Yn fuan ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol, anfonir llythyr atoch yn amlinellu'r amserlen ar gyfer yr archwiliad. Cyhoeddir recordiad sain o'r cyfarfod ar ein gwefan hefyd.

Bydd yr archwiliad o'r cais yn cynnwys ystyried sylwadau ysgrifenedig ynglŷn â'r cais yn bennaf, ynghyd ag unrhyw sylwadau llafar a wnaed yn y gwrandawladau. Bydd yr holl faterion perthnasol a phwysig yn cael eu hystyried pan fydd yr Awdurdod Archwilio yn gwneud ei argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol yn yr achos hwn.

Trefniadau gweinyddol ar gyfer y Gwrandawriad Rhagarweiniol

Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r ymgeisydd a'r rheiny sydd wedi cofrestru fel partion â buddiant, partion statudol, awdurdodau lleol ac unigolion sydd wedi'u gwahodd cyn y dyrennir unrhyw seddau i aelodau eraill o'r cyhoedd. Gall yr Awdurdod Archwilio ddefnyddio ei ddisgresiwn i ganiatáu i unrhyw unigolyn, yn ychwanegol at y rhai sydd â hawl i gymryd rhan, i gyfranogi yn y cyfarfod.

Os dymunwch wneud unrhyw gyflwyniadau ar faterion nad ydynt wedi'u nodi yn yr agenda, gan gynnwys a ydych yn dymuno siarad yn Gymraeg, ysgrifennwch at Richard Price, Rheolwr Achos, yn amlinellu'r cyflwyniadau y dymunwch eu gwneud **erbyn 23 Chwefror 2016**. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn ceisio hwyluso ceisiadau rhesymol a bydd yn newid yr agenda wrth agor y Cyfarfod Rhagarweiniol os yw o'r farn y bydd hyn yn cynorthwyo'r drafodaeth ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer yr archwiliad.

Bydd cofnod yn cael ei wneud o'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Cyhoeddir hwn ar ein gwefan a threfnir ei fod ar gael yn y lleoliadau a restrwyd yn **Atodiad E** cyn gynted ag y bydd yn ymarferol ar ôl y cyfarfod. Gwneir recordiad sain o'r cyfarfod hefyd, a bydd ar gael ar y wefan cyn gynted ag y bydd yn ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio yn anfon copi o'r penderfyniad gweithdrefnol atoch ynglŷn â sut y bydd y cais yn cael ei archwilio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Atodiad B

Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol

Dyddiad: 8 Mawrth 2016

Cyfarfod yn Dechrau: 9.30 yb

Lleoliad: Mynydd Gwefru Electric Mountain, Llanberis,
Gwynedd, LL55 4UR

Amser	Rhif yr Eitem	Eitem
9.00am		Seddau sydd ar gael
9.30am	1	Cyfarfod Rhagarweiniol yn agor: <ul style="list-style-type: none">• Croeso a chyflwyniadau
	2	Sylwadau'r Awdurdod Archwilio ynglŷn â'r broses archwilio, gan gynnwys asesiad cychwynnol o'r prif faterion
	3	Amserlen ddrafft ar gyfer yr archwiliad – gweler Atodiad Ch
	4	Terfynau amser ar gyfer cyflwyno: <ul style="list-style-type: none">• Yr holl sylwadau ysgrifenedig• Adroddiadau ar yr Effaith Leol• Ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio• Datganiadau o Dir Cyffredin• Hysbysiadau yn ymwneud â gwrandawiadau
		Egwyl (os bydd angen)
	5	Gwrandawiadau ac archwiliad safle yng nghwmni eraill: <ul style="list-style-type: none">• Dyddiad yr archwiliad safle yng nghwmni eraill â safle'r cais a'r ardal amgylchynol (Mae'r Awdurdod Archwilio eisoes wedi bod ar nifer o archwiliadau safle yng nghwmni eraill, ac mae manylion y rheiny ar gael ar ein gwefan http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3528248)

		<ul style="list-style-type: none"> • Dyddiad gwrandawriad mater penodol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft • Dyddiadau wedi'u neilltuo ar gyfer gwrandawiadau llawr agored • Cyfnod amser wedi'i neilltuo ar gyfer gwrandawiadau mater penodol eraill • Cyfnod amser wedi'i neilltuo ar gyfer gwrandawiadau caffael gorfodol
Tua 12.30p m	6	Cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Sylwer: Dylech fod ar gael ar gyfer y cyfarfod cyfan o'r dechrau. Os bydd y drafodaeth yn cymryd llai o amser na'r disgwyl, bydd y cyfarfod yn dod i ben cyn gynted ag y bydd yr holl gyfraniadau perthnasol wedi'u gwneud. Os oes unrhyw faterion ychwanegol i ymdrin â nhw, neu os bydd sylwadau'n cymryd llawer o amser, gallai'r cyfarfod redeg am fwy o amser a gall trefn yr eitemau newid.

Atodiad C

Penderfyniadau gweithdrefnol a waned gan yr Awdurdod Archwilio

Mae'r Awdurdod Archwilio yn hysbysu'r holl bartïon â buddiant ynglŷn â'r terfynau amser canlynol:

1. Y terfyn amser **23 Chwefror 2016** fel y dyddiad pan fydd rhaid i unrhyw barti â buddiant hysbysu'r Awdurdod Archwilio am ei ddymuniad i gael ei wrando mewn gwrandawriad llawr agored i'w gynnal ar **8 Mawrth 2016**.
2. Y dyddiad **8 Mawrth 2016 am 1.00 yb** fel dyddiad ac amser gwrandawriad llawr agored. Mae hwn wedi'u drefnu ar yr un diwrnod â'r Gwrandawriad Rhagarweiniol er mwyn symleiddio trefniadau mynychu i bartïon â buddiant ac i sicrhau eu bod yn cael cyfle cynnar i roi eu barn ar y cais. Ar ddiwedd y Cyfarfod Rhagarweiniol bydd yr Awdurdod Archwilio yn cadarnhau a fydd y Gwrandawriad Llawr Agored ar gyfer 8 Mawrth a Gwrandawriad Mater Penodol ar 9 Mawrth yn mynd rhagddynt.
3. Y dyddiad **9 Mawrth 2016 am 9:30 yb** fel dyddiad ac amser gwrandawriad mater penodol mewn perthynas â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Mae hwn wedi'u drefnu ar yr un diwrnod â'r Cyfarfod Rhagarweiniol er mwyn symleiddio trefniadau mynychu i bartïon â buddiant ac i sicrhau eu bod yn cael cyfle i drafod y Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn gynnar yn y broses. Ar ddiwedd y Cyfarfod Rhagarweiniol bydd yr Awdurdod Archwilio yn cadarnhau a fydd y gwrandawriad llawr agored ar 8 Mawrth 2016 a gwrandawriad mater penodol ar 9 Mawrth yn mynd rhagddynt.
4. Y terfyn amser ar gyfer parti statudol sydd heb wneud sylw perthnasol neu awdurdod lleol heb gyfrifoldeb uniongyrchol yn ardal y datblygiad arfaethedig, i hysbysu'r Awdurdod Archwilio o'u dymuniad i gael eu hystyried yn barti â buddiant yw **13 Ebrill 2016**. Dylai hysbysiad gael ei anfon i GlynRhonwy@pins.gsi.gov.uk neu yn ysgrifenedig wedi'i gyfeirio at Dîm Achos Glyn Rhonwy, yn y cyfeiriad a nodwyd ar frig y llythyr hwn.

Mae'r Awdurdod Archwilio hefyd wedi gwneud y penderfyniadau gweithdrefnol canlynol:

1. Datganiadau o Dir Cyffredin

Mewn perthynas â rhai o'r prif faterion a nodwyd yn **Atodiad H**, byddai paratoi Datganiadau o Dir Cyffredin rhwng yr ymgeisydd a phartïon penodol â buddiant yn helpu'r archwiliad. Felly, mae'r amserlen ddrafft ar gyfer yr archwiliad yn darparu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Datganiadau o Dir Cyffredin.

Nod Datganiad o Dir Cyffredin yw cytuno ar wybodaeth ffeithiol a hysbysu'r Awdurdod Archwilio a phob parti arall â buddiant trwy nodi'n

gynnar yn y broses archwilio nid yn unig lle ceir cytundeb, ond hefyd lle mae'r gwahaniaethau. Dylai ddarparu ffocws ac arbed amser trwy amlygu materion nad oes anghydfod yn eu cylch neu nad oes angen iddynt fod yn destun archwiliad pellach. Hefyd, dylai ddatgan yn ddefnyddiol lle a pham y gallai fod anghytundeb ynghylch dehongli'r wybodaeth a'i pherthnasedd. Yna, gellir ymhelaethu ar y rhesymau dros y gwahaniaethau a dehongli goblygiadau gwahaniaeth yn y dystiolaeth. Oni nodir neu y cytunir yn wahanol, yr ymgeisydd a'r parti neu bartïon perthnasol eraill â buddiant ddylai gytuno ar y SoCG, a dylai gael ei gyflwyno gan yr ymgeisydd.

Gofynnir i paratoi Datganiadau o Dir Cyffredin ar gyfer pob maes pwnc a nodwyd ar gyfer y prif faterion, fel a ganlyn:

- A. GORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU (DCO), POLISI A CHANIATÂD ARALL
Datganiadau o Dir Cyffredin rhwng yr ymgeisydd, Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac awdurdodau caniatáu perthnasol eraill a fydd yn cynnwys:
- Amlygu polisi cenedlaethol a lleol, gan gynnwys datganiadau polisi cenedlaethol, polisiau ynni adnewyddadwy, carbon isel a storio ynni, a'u perthnasedd.
 - Amlygu pob caniatâd, hawlen neu drwydded sy'n ofynnol cyn y gellir rhoi'r datblygiad ar waith, cynnydd o ran eu caffael, amserlenni ar gyfer eu caniatáu a ph'un a fydd mesurau perthnasol yn gyson â'r asesiad ac yn alinio â'r DCO drafft.
 - P'un a yw'r datblygiad cyfan sydd wedi ei gynnwys yn y DCO drafft yn cael ei ystyried yn annatod ai peidio.
 - Y berthynas rhwng y DCO drafft a chaniatâd presennol Deddf Cynllun Gwlad a Thref 1990.
 - Y cyfnodau gilotîn ar gyfer caniatâd gan awdurdodau perthnasol.
 - P'un a yw erthyglau A9 ac A37 y DCO drafft yn ofynnol, neu a ddylid eu diwygio neu ychwanegu atynt.
 - Prif faterion perthnasol eraill a nodwyd ar gyfer y maes pwnc hwn.
- B. MATERION CYFFREDINOL YN YMWNEUD Â'R DATGANIAD AMGYLCHEDDOL A CHYNLLUNIAU LLINIARU A RHEOLI
Datganiadau o Dir Cyffredin rhwng yr ymgeisydd, Cyngor Gwynedd a CNC a fydd yn cynnwys:
- Asesiad o'r gwastraff yn deillio o'r datblygiad.
 - Yr angen i ddrafftio cynlluniau lliniaru a rheoli yn ogystal â'r rhai a ddarparwyd hyd yn hyn.
 - Rolau priodol Cyngor Gwynedd a CNC o ran cyflawni ac adolygu cynigion lliniaru.
 - Yr angen i gyflwyno canlyniadau archwiliad tir 2015 i'r archwiliad, a'r goblygiadau ar gyfer y Datganiad Amgylcheddol.
 - P'un a yw'r gweithgareddau gweithredu a chynnal a chadw a ddiffinnir yn y DCO drafft wedi eu hasesu a'u lliniaru'n briodol.

- P'un a yw effeithiau dadgomisiynu a lliniaru wedi eu hystyried yn ddigonol ai peidio.
- Prif faterion perthnasol eraill a nodwyd ar gyfer y maes pwnc hwn.

C. **BIOAMRYWIAETH AC ECOLEG**

Datganiad o Dir Cyffredin rhwng yr ymgeisydd, Cyngor Gwynedd a CNC a fydd yn cynnwys:

- Safleoedd Ewropeaidd a nodweddion cymwys a ystyriwyd yn yr Asesiad Rheoliad Cynefinoedd – a yw'r ymgeisydd wedi mabwysiadu ardal astudio briodol.
- Cwmpas yr effeithiau a ystyriwyd yn yr Asesiad Rheoliad Cynefinoedd a'r data gwaelodlin a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiad.
- Mesurau lliniaru sy'n ofynnol i ddod i'r casgliad nad oes unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ac i ba raddau y cânt eu sicrhau yn y DCO drafft.
- Cytundeb â'r cynlluniau/prosiectau a gynhwyswyd yn y Asesiad Rheoliad Cynefinoedd cyfunol.
- I ba raddau yr amddiffynnwyd derbynyddion ecolegol yn ddigonol yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu.
- Effeithiau ar gynefinoedd a safleoedd dynodedig.
- Effeithiau ar dorgoch yr Arctig, moch daear, ystlumod, adar sy'n bridio, pysgod eraill, ymlusgiaid a phryfed cop.
- Effeithiau ar goed, gwrychoedd, rhywogaethau goresgynnol a chen.
- Cyfleoedd i wella.
- Prif faterion perthnasol eraill a nodwyd ar gyfer y maes pwnc hwn.

CH. **TIRWEDD, EFFEITHIAU GWELEDOL, DYLUNIO DA A DEFNYDD TIR**

Datganiadau o Dir Cyffredin rhwng yr ymgeisydd, Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, CNC a SP Manweb a fydd yn cynnwys:

- Yr asesiad o dirwedd ac effeithiau gweledol yn y Datganiad Amgylcheddol.
- Yr effaith ar osodiad Parc Cenedlaethol Eryri.
- Maint, lleoliad, dyluniad a deunyddiau'r adeiladau arfaethedig, strwythurau, ffensys a goleuadau allanol.
- Cynigion i adfer y safle.
- Derbynioldeb y defnyddiau tir arfaethedig.
- Effeithiau cronus y cysylltiad â'r grid a'r posibilrwydd y bydd ceblau uwchben.
- Prif faterion perthnasol eraill a nodwyd ar gyfer y maes pwnc hwn.

D. **YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL AC ARCHAEOLEG**

SoCG rhwng yr ymgeisydd, Cyngor Gwynedd a Cadw a fydd yn cynnwys:

- Effeithiau'r datblygiad ar asedau treftadaeth a'u gosodiadau.

- Effeithiau ar Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Hanesyddol.
- Y cais am statws Safle Treftadaeth y Byd.
- Mesurau lliniaru heblaw am gofnodi asedau.
- Prif faterion perthnasol eraill a nodwyd ar gyfer y maes pwnc hwn.

Dd. **TRAFFIG, TRAFNIDIAETH A MYNEDIAD CYHOEDDUS**
Datganiadau o Dir Cyffredin rhwng yr ymgeisydd, Cyngor Gwynedd, SP Manweb ac awdurdodau lleol perthnasol eraill a fydd yn cynnwys:

- Digonolrwydd mynediad, priffyrdd a darpariaethau trafnidiaeth eraill ar gyfer adeiladu a gweithredu.
- Cadarnhau'r llwybrau adeiladu a'r effeithiau ar gymunedau a derbynyddion eraill, gan gynnwys y llwybr rhwng chwarel 1 a'r A4085.
- Effeithiau cronus â'r cysylltiad grid a ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd.
- Cau a dargyfeirio ffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus dros dro ac yn barhaol. Effeithiau ar dir mynediad cyhoeddus.
- Prif faterion perthnasol eraill a nodwyd ar gyfer y maes pwnc hwn.

E. **SŴN A DIRGRYNIAD**
Datganiadau o Dir Cyffredin rhwng yr ymgeisydd, Cyngor Gwynedd a CNC a fydd yn cynnwys:

- Effeithiau ar gymunedau a derbynyddion eraill, gan gynnwys adeiladau preswyl ac adeiladau eraill, ac ar ddatblygiadau eraill a adeiladwyd neu a ganiatawyd.
- Yr asesiad o effeithiau yn deillio o chwythu, drilio, defnyddio cludyddion a'r peiriant tyllu twneli.
- Meintoliad lefelau sŵn, dirgryniad a gorbwysedd aer ar gyfer pob gweithgaredd adeiladu a gweithredu perthnasol. P'un a yw'r effeithiau'n cael eu deall yn ddigonol ai peidio.
- Lefelau sŵn, dirgryniad a gorbwysedd aer a ph'un a ddylid sicrhau'r rhain ai peidio.
- Gweithgareddau a ganiateir y tu allan i oriau gwaith arferol.
- Prif faterion perthnasol eraill a nodwyd ar gyfer y maes pwnc hwn.

F. **ADNODDAU DŴR, PERYGL O LIFOGYDD, DAEAREG AC AMODAU TIR**
SoCG rhwng yr ymgeisydd, Cyngor Gwynedd a CNC a fydd yn cynnwys:

- Digonolrwydd y wybodaeth waelodlin a'r hyder bod effeithiau tebygol y datblygiad yn cael eu deall yn ddigonol.
- Effeithiau ar gyflenwadau dŵr preifat, Llyn Padarn, Nant-y-Betws a chyrrff dŵr eraill. Y posibilrwydd o siltio a halogi, gan gynnwys gan ordnans heb ei ffrwydro, alwminiwm neu gopr, yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu.

- Rheoli dŵr ffo a monitro ansawdd dŵr yn ystod y gwaith adeiladu a gweithredu.
- I ba raddau y byddai'r datblygiad yn creu perygl cynyddol o lifogydd i dderbynyddion ac o dan ba amodau. Ystyried unrhyw newidiadau i gyfraddau dŵr ffo briglif a ph'un a yw'r asesiad yn rhoi ystyriaeth ddigonol i newid yn yr hinsawdd.
- Trwyddedau tynnu a gollwng a chaniatâd Deddf Cronfeydd Dŵr 1975.
- Cydymffurfiad â gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr .
- Prif faterion perthnasol eraill a nodwyd ar gyfer y maes pwnc hwn.

Ff. ANSAWDD AER AC EFFEITHIAU ERAILL AR IECHYD

Datganiadau o Dir Cyffredin rhwng yr ymgeisydd, Cyngor Gwynedd, CNC, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Iechyd Cyhoeddus Cymru a fydd yn cynnwys:

- Effeithiau ar gymunedau a derbynyddion eraill, gan gynnwys adeiladau preswyl ac adeiladau eraill, ac ar ddatblygiadau eraill a adeiladwyd neu a ganiatawyd.
- Effeithiau'n deillio o weithgareddau sy'n creu llwch, gan gynnwys ffrwydro, adeiladu argaeau llechi, tomenni pridd gwastraff, tomenni storio dros dro, ffyrdd, caeadeledd adeiladu a defnyddio cludyddion.
- Y mesurau lliniaru penodol a gynigir ar gyfer pob gweithgaredd sy'n creu llwch a'u heffeithiolrwydd o ran lleihau'r effeithiau.
- Y tebygolrwydd y bydd ordnans heb ei ffrwydro yn bresennol a'r mesurau perthnasol sydd eu hangen.
- Effeithiau ar feysydd electromagnetig a chanllawiau'r Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelu rhag Pelydredd nad yw'n Ïoneiddio.
- Prif faterion perthnasol eraill a nodwyd ar gyfer y maes pwnc hwn.

G. ECONOMEG GYMDEITHASOL, TWRISTIAETH A HAMDDEN

Datganiadau o Dir Cyffredin rhwng yr ymgeisydd, Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Cadw a fydd yn cynnwys:

- Manteision cymdeithasol ac economaidd tebygol y datblygiad, yr angen i'r rhain fod yn lleol a sut y cânt eu sicrhau.
- I ba raddau yr amddiffynnwyd buddiannau derbynyddion twristiaeth a hamdden, gan gynnwys busnesau, sefydliadau, twristiaid, cyfranogwyr hamdden a digwyddiadau, a derbynyddion eraill yn ddigonol yn ystod y gwaith o adeiladu a gweithredu'r datblygiad.
- Effeithiau colli mynediad dros dro ac yn barhaol.
- Prif faterion perthnasol eraill a nodwyd ar gyfer y maes pwnc hwn.

Ng. CAFFAEL GORFODOL a THIR COMIN
**Datganiadau o Dir Cyffredin rhwng yr ymgeisydd,
Llywodraeth Cymru, Ystadau'r Goron ac Ymgwymerwyr
Statudol** a fydd yn cynnwys:

- Ymgwymeriadau statudol (hawliau/cyfarpar) a weithredir er budd y cyhoedd y byddai'r datblygiad yn ymyrryd â nhw a darpariaethau amddiffynnol y DCO drafft.
- Cytundeb i gaffael hawliau i dir Ystadau'r Goron.
- P'un a yw ceisiadau i ddadgofrestru tir comin a chwblhau gwaith ar y tir comin yn mynd rhagddynt yn gywir a bod disgwyliad rhesymol iddynt gael eu cymeradwyo o fewn cyfnod amser derbynol a rhagweladwy.
- P'un a fyddai'r profion perthnasol yn Neddf Cynllunio 2008 yn cael eu bodloni ai peidio.
- Prif faterion perthnasol eraill a nodwyd ar gyfer y maes pwnc hwn.

Yn ogystal â'r pwyntiau penodol a nodir uchod, gofynnir i bob Datganiad o Dir Cyffredin ar gyfer meysydd pwnc C-G fynd i'r afael â'r materion canlynol ar gyfer penodau'r Datganiad Amgylcheddol sy'n berthnasol i bob maes pwnc:

- Methodoleg yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, gan gynnwys y cynlluniau/prosiectau a gynhwysir ynddi a'r asesiad o'r effeithiau cronus.
- Dulliau casglu data gan gynnwys y dull modelu a chyflwyno canlyniadau, gan gynnwys methodolegau rhagamcanu.
- Data gwaelodlin a dadansoddi.
- Defnyddio barnau arbenigol a rhagdybiaethau.
- Nodi derbynyddion y gall y datblygiad arfaethedig effeithio arnynt a'u sensitifrwydd, a meintioli/cymhwyso'r effeithiau posibl.
- Natur yr effeithiau tebygol (uniongyrchol ac anuniongyrchol) ar dderbynyddion ac ystyried sefyllfaoedd 'gwaethaf' 'Rochdale Envelope'.
- Addasrwydd a phenodolrwydd mesurau lliniaru arfaethedig, cyfiawnhad y byddant yn arwain at yr effeithiau gweddilliol, a sicrwydd y cyfryw fesurau lliniaru yn y DCO drafft.
- Arwyddocâd pob effaith weddilliol ac arwyddocâd cyffredinol ar effaith ar gyfer pennod/penodau perthnasol y Datganiad Amgylcheddol.

Hefyd, gofynnir i bob Datganiad o Dir Cyffredin gynnwys:

- Datganiad cryno o'r materion y cytunwyd arnynt.
- Datganiad cryno o faterion nas cytunwyd arnynt neu sy'n weddill.

2. Rheoliadau Cynefinoedd 2010 (fel y'u diwygiwyd)

Mae'n rhaid i'r archwiliad gynnwys proses sy'n darparu digon o wybodaeth i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd i fodloni ei ddyletswyddau statudol fel yr Awdurdod Cymwys o dan Reoliadau Cynefinoedd 2010 (fel y'u diwygiwyd) mewn perthynas â Safleoedd

Ewropeaidd. Er mwyn llywio adroddiad ac argymhelliad yr Awdurdod Archwilio i'r Ysgrifennydd Gwladol ar y cais hwn, ac i ddarparu gwybodaeth annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, gofynnir i'r ymgeisydd ddiwygio'r matricesau sgrinio a ddarparwyd yn yr Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol (NSER) i fynd i'r afael â'r canlynol:

Nodweddion cymwys:

- Diwygiwch y matricesau sgrinio i gynnwys y rhywogaethau/cynefinoedd sy'n bresennol fel nodweddion cymwys, ond nad ydynt yn brif resymau dros ddewis y Safleoedd Ewropeaidd, a darparwch droednodiadau i ddangos sut mae'r nodweddion cymwys wedi'u hystyried yn yr NSER. Os oes angen mwy o wybodaeth i gefnogi'r asesiad o Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (LSE) posibl ar y nodweddion cymwys hyn, darparwch y wybodaeth hon ochr yn ochr â'r matricesau sgrinio diwygiedig.
- Mae Malwen Droellog Geyers wedi'i nodi o fewn y matrices sgrinio hwn. Mae'r nodwedd hon wedi'i rhestru ar wefan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur fel nodwedd gymwys ar y safle hwn. Nid yw hon, fodd bynnag, wedi'i rhestru fel nodwedd gymwys ar gronfa ddata'r Comisiwn Ewropeaidd y cymharwyd matricesau sgrinio'r ymgeisydd yn ei erbyn.
- Mae 'Dunes with Salix repens ssp. Argentea' yn cael ei ailadrodd ddwywaith yn y matrices sgrinio ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Y Twyni o Abermenai i Aberffraw / Abermenai to Aberffraw Dunes Special Area of Conservation (SAC). Dilëwch y dyblygu hwn.

Fe'ch cynghorir i ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru i gytuno ar y nodweddion cymwys cywir y dylid eu cynnwys yn y matricesau sgrinio.

Effeithiau a ystyriwyd:

- Mae'r effeithiau a ystyriwyd o fewn y matricesau sgrinio wedi'u rhestru yn y Tabl ar dudalennau 2-3 yn Atodiad B o'r Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol. Mae'r Tabl hwn yn cadarnhau mai dim ond i ACA Glynllifon y mae Effaith 3 (aflonyddu ar rywogaethau) yn berthnasol. Dilëwch golofn 'Effaith 3' o'r holl matricesau lle nad yw'n berthnasol i'r Safle Ewropeaidd penodol hwnnw.
- Mae sŵn adeiladu (Effaith 2) wedi'i bennu yn yr asesiad ar gyfer yr holl Safleoedd Ewropeaidd sydd o fewn 5 cilometr i'r datblygiad arfaethedig (NSER Tabl 3.3). Diwygiwch y matricesau sgrinio i ddileu cyfeiriadau at effeithiau sŵn adeiladu (Effaith 2) lle nad ydynt wedi'u hasesu mewn perthynas â Safle Ewropeaidd penodol (h.y. y tu allan i 5 cilometr).
- Lle mae effeithiau sŵn adeiladu posibl wedi'u hystyried ar Safleoedd Ewropeaidd o fewn 5 cilometr i'r datblygiad arfaethedig, diwygiwch y matricesau sgrinio i sicrhau mai dim ond yn erbyn nodweddion cymwys y mae'n hysbys eu bod yn agored i sŵn yr ystyriwyd sŵn yn eu herbyn.
- Mae Tabl 3.3 o'r Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol (NSER) yn cadarnhau bod effaith bosibl gorfaethu/ewtroffigedd ar ACA Afon Gwyrfaei wedi'i sgrinio yn yr asesiad. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad

at yr effaith hon yn y matrices sgrinio cyfatebol. A ellir diwygio'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr NSER a diwygio'r matricesau sgrinio lle bo'n berthnasol i gyfeirio at yr holl effeithiau sy'n cael eu hystyried yn yr NSER.

Gwybodaeth a ddarparwyd yn y troednodiadau:

- Nid yw'r matricesau sgrinio yn darparu cyfeiriadau yn gyson at y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd i lunio'r casgliadau datganedig. Diwygiwch y matricesau sgrinion i fynd i'r afael ag anghysonderau presennol yn y cyfeiriadau, ac i sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwyd yn y troednodiadau yn cynnwys cyfeiriadau clir a'i bod yn hawdd mynd ati. Lle dibynnwyd ar fesurau lliniaru i lunio casgliad o ddim Effeithiau Arwyddocaol Tebygol, diwygiwch droednodiadau'r matricesau sgrinio perthnasol i gadarnhau sut mae hyn/y mesurau hyn wedi'i sicrhau yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft neu drwy ddulliau eraill.

Mae templed y matrices sgrinion ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan:

<http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/uploads/2015/06/Advice-note-10v4.pdf>

Y dyddiad ar gyfer gorfod derbyn y matricesau wedi'u cwblhau gan yr ymgeisydd yw Terfyn Amser 1 ar **Ddydd Mercher 30 Mawrth 2016**.

Amserlen ddrafft ar gyfer archwilio'r cais

Bydd yr Awdurdod Archwilio yn archwilio'r cais yn bennaf trwy ystyried sylwadau ysgrifenedig ynglŷn â'r cais. Bydd yr Awdurdod Archwilio hefyd yn ystyried unrhyw sylwadau llafar a wnaed yn y gwrandawiadau. Mae dyletswydd ar yr Awdurdod Archwilio i **gwblhau'r** archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod o 6 mis yn dechrau gyda'r diwrnod ar ôl diwedd y Cyfarfod Rhagarweiniol.

Eitem	Materion	Dyddiadau Cwblhau
1.	<p>Cyfarfod Rhagarweiniol</p> <p>Ar ddiwedd y Cyfarfod Rhagarweiniol bydd yr Awdurdod Archwilio yn cadarnhau a fydd y gwrandawriad llawr agored a drefnwyd ar gyfer 8 Mawrth 2016 a gwrandawriad mater penodol ar 9 Mawrth 2016 yn mynd rhagddynt.</p>	<p>Dydd Mawrth 8 Mawrth 2016 (9.30 yb i 12.30 yb)</p>
2.	<p>Gwrandawriad llawr agored</p>	<p>Dydd Mawrth 8 Mawrth 2016 (1.00 yb)</p>
3.	<p>Gwrandawriad Mater Penodol yn ymwneud â materion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft</p>	<p>Dydd Mercher 9 Mawrth 2016 (9.30yb)</p>
4.	<p>Yr Awdurdod Archwilio yn cyhoeddi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amserlen archwilio wedi'i diweddarau • Cwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr Awdurdod Archwilio 	<p>Dydd Mercher 16 Mawrth 2016</p>
5.	<p>Terfyn Amser 1</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dogfennau ôl-wrandawriad gan gynnwys unrhyw grynodedb ysgrifenedig o achos llafar a gyflwynwyd mewn gwrandawriad ac unrhyw ddogfennau/ diwygiadau y gofynnwyd amdanynt gan yr Awdurdod Archwilio • Matricsau sgrinio drafft yr ymgeisydd yn crynhoi'r effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd fel y gofynnwyd amdanynt yn Atodiad C • Ymatebion i sylwadau ar unrhyw sylwadau a chyflwyniadau ychwanegol a dderbyniwyd cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol • Unrhyw wybodaeth arall y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 o Reolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (y Rheolau Archwilio) 	<p>12 canol dydd</p> <p>Dydd Mercher 30 Mawrth 2016</p>

<p>6.</p>	<p>Terfyn Amser 2</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar Sylwadau Perthnasol • Sylwadau ar fatricsau sgrinio drafft yr ymgeisydd yn crynhoi'r effeithiau ar Safleoedd Ewropeaidd • Crynodebau o'r holl Sylwadau Perthnasol sydd dros 1500 o eiriau • Sylwadau Ysgrifenedig gan yr holl bartion â buddiant. Dylai bob parti gyflwyno'i achos ysgrifenedig llawn a thystiolaeth ategol yn y cam hwn, gan y dylai unrhyw sylwadau sydd i'w gwrandawrio mewn gwrandawriad fod yn seiliedig ar Sylwadau Perthnasol neu Sylwadau Ysgrifenedig • Crynodebau o'r holl Sylwadau Ysgrifenedig sydd dros 1500 o eiriau • Adroddiadau ar yr Effaith Leol gan unrhyw awdurdodau lleol • Ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr Awdurdod Archwilio • Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft diwygiedig yr ymgeisydd • Datganiadau o Dir Cyffredin • Sylwadau ar ddogfennau ôl-wrandawriad • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn gwrandawriad caffael gorfodol • Hysbysiad o ddymuniad i wneud sylwadau llafar mewn unrhyw wrandawriadau mater penodol pellach • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn gwrandawriad llawr agored pellach • Sylwadau'n ymwneud â lleoliadau i'w gweld ar y safle neu yn yr ardal amgylchynol yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r Awdurdod Archwilio yn ystod archwiliadau safle pellach heb gwmni eraill Sylwer: <i>Mae'r Awdurdod Archwilio eisoes wedi cynnal archwiliadau safle heb gwmni eraill, a gellir gweld y manylion ar ein gwefan</i> http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3528248 • Sylwadau'n ymwneud â lleoliadau i'w gweld ar y safle neu yn yr ardal amgylchynol yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r Awdurdod Archwilio yn ystod archwiliad safle yng nghwmni eraill er mwyn deall yn well y sylwadau a wnaed neu i weld tir a buddiannau lle nad oes unrhyw gyfle i gael mynediad cyhoeddus • Hysbysiad gan bartion statudol, neu awdurdod lleol heb 	<p>12 canol dydd</p> <p>Dydd Mercher 13 Ebrill 2016</p>
-----------	---	---

	<p>gyfrifoldeb uniongyrchol yn ardal y datblygiad arfaethedig, o ddymuniad i gael eu hystyried yn barti â buddiant</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio ac a dderbynnir erbyn Terfyn Amser 1 • Unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 o'r Rheolau Archwilio 	
7.	<p>Cyhoeddi'r canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hysbysiad o'r dyddiad, amser a'r lleoliad ar gyfer unrhyw wrandawiaid mater penodol pellach, gwrandawiad llawr agored a gwrandawiaidau caffael gorfodol 	<p>Dydd Llun 18 Ebrill 2016</p>
8.	<p>Terfyn Amser 3</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar Sylwadau Ysgrifenedig • Ymatebion i sylwadau ar Sylwadau Perthnasol • Sylwadau ar adroddiadau ar yr effaith leol • Sylwadau ar ymatebion i gwestiynau ysgrifenedig cyntaf yr Awdurdod Archwilio • Sylwadau ar Orchymyn Caniatâd Datblygu drafft diwygiedig yr ymgeisydd • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio ac a dderbynnir erbyn Terfyn Amser 2 • Unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 o'r Rheolau Archwilio 	<p>12 canol dydd Dydd Mercher 27 Ebrill 2016</p>
9.	<p>Amser i'w gadw ar gyfer gwrandawiad llawr agored (os bydd angen)</p>	<p>Dydd Llun 16 Mai (Gyda'r nos)</p>
10.	<p>Amser i'w gadw ar gyfer gwrandawiad(au) mater penodol</p>	<p>Dydd Mawrth 17 Mai 2016</p>
11.	<p>Amser i'w gadw ar gyfer gwrandawiad(au) mater penodol</p>	<p>Dydd Mercher 18 Mai 2016 (Bore)</p>
12.	<p>Amser i'w gadw ar gyfer gwrandawiad caffael gorfodol (os bydd angen)</p>	<p>Dydd Mercher 18 Mai 2016 (Prynhawn)</p>
13.	<p>Amser i'w gadw ar gyfer archwiliad safle yng nghwmni eraill (os bydd angen)</p>	<p>Dydd Iau 19 Mai 2016</p>
14.	<p>Terfyn Amser 4</p>	<p>12 canol dydd</p>

	<p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dogfennau ôl-wrandawriad gan gynnwys unrhyw grynodedb ysgrifenedig o achos llafar a gyflwynwyd mewn unrhyw wrandawriad ac unrhyw ddogfennau/diwygiadau y gofynnwyd amdanynt gan yr Awdurdod Archwilio. • Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft diwygiedig yr ymgeisydd • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio ac a dderbynnir erbyn Terfyn Amser 3 • Unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 o'r Rheolau Archwilio 	<p>Dydd Iau 26 Mai 2016</p>
15.	<p>Cyhoeddi'r canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ail gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio (os bydd angen) 	<p>Dydd Mawrth 7 Mehefin 2016</p>
16.	<p>Terfyn Amser 5</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i ail gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio • Sylwadau ar Orchymyn Caniatâd Datblygu drafft diwygiedig yr ymgeisydd • Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio ac a dderbynnir erbyn Terfyn Amser 4 • Unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 o'r Rheolau Archwilio 	<p>12 canol dydd Dydd Gwener 17 Mehefin 2016</p>
17.	<p>Amser i'w gadw ar gyfer gwrandawriad mater penodol (os bydd angen)</p>	<p>Dydd Mercher 6 Gorffennaf 2016</p>
18.	<p>Amser i'w gadw ar gyfer gwrandawriad caffael gorfodol (os bydd angen)</p>	<p>Dydd Iau 7 Gorffennaf 2016</p>
19.	<p>Terfyn Amser 6*</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dogfennau ôl-wrandawriad gan gynnwys unrhyw grynodedb ysgrifenedig o achos llafar a gyflwynwyd mewn unrhyw Wrandawriad ac unrhyw ddogfennau/diwygiadau y gofynnwyd amdanynt gan yr Awdurdod Archwilio. 	<p>12 canol dydd Dydd Iau 14 Gorffennaf 2016</p>

	<ul style="list-style-type: none"> Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft terfynol yr ymgeisydd <p>*Sylwer: Os nad yw gwrandawiadau yn eitemau 17 ac 18 yn cael eu cynnal yna ni fydd angen y terfyn amser hwn</p>	
20.	<p>Cyhoeddi'r canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr Awdurdod Archwilio (os oes ei angen i hwyluso'r archwiliad) Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) <p>*Sylwer: Os nad yw'r gwrandawiadau yn eitemau 17 ac 18 yn cael eu cynnal yna'r dyddiad cyhoeddi fydd Dydd Mawrth 5 Gorffennaf 2016</p> <p><i>Diwedderir faner ar y tudalennau prosiect Glyn Rhonwy ar ein gwefan ar y diwrnod hwn i gadarnhau y dogfennau a gyhoeddwyd.</i></p>	<p>Dydd Gwener 22 Gorffennaf 2016*</p> <p>Dydd Mawrth 5 Gorffennaf 2016</p>
21.	<p>Terfyn Amser 7</p> <ul style="list-style-type: none"> Sylwadau ar Orchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr Awdurdod Archwilio Sylwadau ar yr Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio ac a dderbynnir erbyn Terfyn Amser 6 Unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 o'r Rheolau Archwilio <p>*Sylwer: Os nad yw'r gwrandawiadau yn eitemau 17 ac 18 yn cael eu cynnal yna dyddiad y terfyn amser fydd 19 Gorffennaf 2016</p>	<p>12 canol dydd</p> <p>Dydd Mercher 3 Awst 2016*</p> <p>12 canol dydd</p> <p>Dydd Mawrth 19 Gorffennaf 2016</p>
22.	<p>Terfyn Amser 8</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Ymatebion i sylwadau ar Orchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr Awdurdod Archwilio Ymatebion i sylwadau ar y Goblygiadau ar gyfer y Adroddiad Safleoedd Ewropeaidd (RIES) Sylwadau ar yr ymatebion i ail gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan yr Awdurdod Archwilio ac a dderbynnir erbyn Terfyn Amser 7 Unrhyw wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani gan yr 	<p>12 canol dydd</p> <p>Dydd Mercher 10 Awst 2016*</p>

	<p>Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 o'r Rheolau Archwilio</p> <p>* Sylwer: Os nad yw'r gwrandawriadau yn eitemau 17 ac 18 yn cael eu cynnal yna dyddiad y terfyn amser fydd 26 Gorffennaf 2016</p>	<p>12 canol</p> <p>Dydd Mawrth</p> <p>26 Gorffennaf</p> <p>2016</p>
23.	<p>Mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Archwilio i gwblhau'r archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod 6 mis yn dechrau y diwrnod ar ôl diwedd y Cyfarfod Rhagarweiniol</p>	<p>Dydd Iau</p> <p>8 Medi 2016</p>

Hysbysiad o wrandawiadau cyntaf

Fel y nodwyd uchod bydd yr Awdurdod Archwilio yn cynnal y gwrandawiadau canlynol o dan Adrannau 91 a 93 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008). Mae'r atodiad hwn yn rhoi gwybod am ddyddiadau, amserau a lleoliadau gwrandawiadau i ddod a fydd yn cael eu cynnal yn ystod yr archwiliad. Mae'r trefniadau ar gyfer y gwrandawiadau wedi'u nodi isod.

Dyddiad	Math o Wrandawiad	Lleoliad	Amser Dechrau
8 Mawrth 2016	Gwrandawiad llawr agored	Mynydd Gwefru Electric Mountain, Llanberis, Gwynedd, LL55 4UR	1.00 pm (seddau ar gael o 12.30 pm)
9 Mawrth 2016	Gwrandawiad mater penodol yn ymwneud â materion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft	Mynydd Gwefru Electric Mountain, Llanberis, Gwynedd, LL55 4UR	9.30 am (seddau ar gael o 9.00 am)

Os bydd tywydd drwg neu amgylchiadau eithriadol eraill sy'n golygu na fydd modd cynnal y gwrandawiadau hyn, mae dyddiadau eraill wedi'u cadw, fel y nodir isod. Pe na bai'r gwrandawiadau yn mynd rhagddynt, bydd diweddariad ac amserlen ddrafft wedi'i diweddarau yn cael eu rhoi ar ein gwefan:

<http://infrastructure.planningportal.gov.uk/projects/wales/glyn-rhonwy-pumped-storage/>

Dyddiad	Math o Wrandawiad	Lleoliad	Amser Dechrau
15 Mawrth 2016	Gwrandawiad llawr agored	Mynydd Gwefru Electric Mountain, Llanberis, Gwynedd, LL55 4UR	1.00 yp (seddau ar gael o 12.30 yp)
16 Mawrth 2016	Gwrandawiad mater penodol yn ymwneud â	Mynydd Gwefru Electric Mountain,	9.30 yb (seddau ar gael o 9.00 yb)

	materion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft	Llanberis, Gwynedd, LL55 4UR	
--	--	------------------------------------	--

Dylai partiion â buddiant sy'n dymuno mynychu un neu fwy o'r gwrandawiadau sydd i'w cynnal hysbysu Richard Price, Rheolwr Achos, yn y cyfeiriad post neu'r cyfeiriad e-bost a nodwyd yn y llythyr uchod erbyn **23 Chwefror 2016**. Rhwng wybod i ni os ydych yn bwriadu mynychu'r gwrandawriad hyd yn oes os nad ydych yn dymuno siarad. Os ydych yn cynrychioli sefydliad, bydd yn fuddiol i ni wybod enw'r sefydliad a'r unigolyn (unigolion) sy'n bresennol. Byddai hefyd o gymorth i ni pe gallech roi gwybod i ni am unrhyw anghenion arbennig a allai fod gennych (e.e. mynediad i bobl anabl, dolen glyw ac ati), neu os ydych yn dymuno siarad yn Gymraeg. Mae'n rhaid i chi wneud yn siŵr bod eich rhif cyfeirnod parti â buddiant wedi'i gynnwys yn eich gohebiaeth.

Mae agenda ar gyfer y gwrandawriad mater penodol yn gysylltiedig â materion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft wedi'i atodi at y llythyr hwn yn **Atodiad Dd**, ac mae'n nodi manylion amserau, trefniadau ar gyfer y diwrnod a'r testunau sydd i'w trafod.

Mae gan bob parti â buddiant yr hawl i wneud sylwadau llafar yn y gwrandawiadau (yn amodol ar bwerau rheoli'r Awdurdod Archwilio dros gynnal y gwrandawiadau). Mae arweiniad o dan y Deddf Cynllunio 2008 yn pennu mai'r Awdurdod Archwilio fydd yn chwilio, yn profi ac yn asesu'r dystiolaeth trwy gwestiynu'n uniongyrchol yr unigolion sy'n gwneud sylwadau llafar. Bydd y cwestiynau yn y gwrandawiadau yn cael ei arwain gan yr Awdurdod Archwilio felly. Mae'r amser a ddyrannwyd wedi'i amcangyfrif, ar sail y materion a nodwyd i'w hystyried. Gall yr Awdurdod Archwilio ddod â'r gwrandawriad i ben cyn gynted ag y bydd yr holl gyfraniadau perthnasol wedi'u gwneud a'r holl gwestiynau wedi'u gofyn, ac wedi cael ymateb. Yn ogystal, os oes unrhyw faterion ychwanegol i ymdrin â nhw, neu os bydd sylwadau'n cymryd llawer o amser mewn unrhyw wrandawriad, gall fod angen parhau â'r sesiwn mewn gwrandawriad a drefnir yn ddiweddarach.

Agendâu ar gyfer y gwrandawriad mater penodol yn ymwneud â'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft

Ams er	Rhif yr Eite m	Eitem
9.00 yb		Seddau ar gael
9.30 yb	1	Croeso a chyflwyniadau
	2	Sylwadau agoriadol yr Awdurdod Archwilio ynglŷn â chynnal y gwrandawriad
	3	Ymgeisydd i roi trosolwg o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft a'r hyn y mae'n gobeithio ei gyflawni
	4	Trafodaeth fanwl ar erthyglau a gofynion y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft unigol yn dilyn yr amserlen a gyhoeddwyd ar ein gwefan http://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/document/3619250
	5	Crynodeb o gamau gweithredu a dogfennau ôl-wrandawriad y gofynnwyd amdanynt gan yr Awdurdod Archwilio
	6	Unrhyw fusnes arall a sylwadau cloi yr Awdurdod Archwilio
Tua 5.00 yp	7	Cau'r gwrandawriad

Atodiad E

Argaeledd sylwadau perthnasol a dogfennau'r cais

Mae'r dogfennau cais a chynrychioliadau perthnasol, ar gael ar y tudalennau Seilwaith Cenedlaethol ar ein wefan:

<http://infrastructure.planningportal.gov.uk/projects/wales/glyn-rhonwy-pumped-storage/>

Gellir gweld dogfennau'n electronig yn y lleoliadau canlynol:

Llyfrgell Caernarfon

Pavilion Road
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1AS

Oriau Agor:	Dydd Llun	9.30 yb – 7.00yp
	Dydd Mawrth	9.30 yb – 7.00yp
	Dydd Mercher	9.30 yb – 1.00yp
	Dydd Iau	9.30 yb – 7.00yp
	Dydd Gwener	9.30 yb – 7.00yp
	Dydd Sadwrn	9.30 yb – 1.00yp
	Dydd Sul	AR GAU

Costau Argraffu:	A4 (Du a Gwyn)	10 c
	A4 (Lliw)	50 c
	A3 (black and white)	20 c
	A3 (Lliw)	£1

Llyfrgell Deiniolen

Tŷ Elidir
Stryd Fawr
Deiniolen
LL55 3HR

Oriau Agor:	Dydd Llun	3.00 yp – 6.00yp
	Dydd Mawrth	AR GAU
	Dydd Mercher	2.00 yp – 5.00yp
	Dydd Iau	AR GAU
	Dydd Gwener	10.00 yb – 12.00yp
	Dydd Sadwrn	AR GAU
	Dydd Sul	AR GAU

Costau Argraffu:	A4 (Du a Gwyn)	10c
	A4 (Lliw)	50c
	A3 (Du a Gwyn)	20c
	A3 (Lliw)	£1

Llyfrgell Llanberis

Capel Coch Road
Llanberis
LL55 4SH

Oriau Agor:	Dydd Llun	AR GAU
	Dydd Mawrth	2.00yp – 6.00 yp
	Dydd Mercher	AR GAU
	Dydd Iau	10.00yb – 12.00yp 1.00yp – 5.00yp
	Dydd Gwener	2.00 yp – 6.00yp
	Dydd Sadwrn	AR GAU
	Dydd Sul	AR GAU

Costau Argraffu:	A4 (Du a Gwyn)	10c
	A4 (Lliw)	50c

